# FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
# COFNODION A GADARNHAWYD

**Y trydydd ar ddeg ar hugain o gyfarfodydd y fforwm a gynhaliwyd ym 'MHLAS PENTWYN' Canolfan Fenter a Dysgu Gydol Oes Coedpoeth, Ffordd y Castell, Coedpoeth, dydd Iau'r 7 Mai 2009 am 1.30 pm**

## 12/09 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

**Presenoldeb:**

SWYDDOG LLYWYDDU AC YSGRIFENNYDD
Emma Haldane
**(Yn dilyn eitem 13/09, penodwyd Mabyn Pickering yn Gadeirydd)**

CADEIRYDD
Mabyn Pickering

AELODAU
John Cooper-Poole
Sue Gittins **(Is-gadeirydd)**
Martin Howorth (CBSW)
Tim Stratton
Edward Wardle
Mabyn Pickering
Gerald Moss
Peter Cade
Janet Williams
Gwynfor Jones
Mary Roberts
John Evans
Natalie Edwards
Guy Springett

ERAILL
John Marchant
Alun Price (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)
Jeanette Blackford
Yvonne Palmer (AVOW)
George Williams (CC Coedpoeth)
Len Coling

**Ymddiheuriadau:** Shelagh Roberts, George Kinder, Mike Crawshaw

## 13/09 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Cadarnhaodd y Swyddog Llywyddu bod Mabyn Pickering yn hapus i gynnig ei henw i fod yn Gadeirydd i'r fforwm a Sue Gittins yn Is-gadeirydd. Eiliwyd yr enwebiadau hyn gan Gwynfor Jones a Tim Stratton. Oherwydd nad oedd

enwebiadau ychwanegol wedi eu derbyn, cyhoeddodd y Swyddog Llywyddu bod Mabyn Pickering yn Gadeirydd a Sue Gittins yn Is-gadeirydd ar Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam.

Anerchodd Mabyn y fforwm gyda diolchiadau am yr holl gefnogaeth yr oedd hi wedi ei chael gan aelodau hen a newydd. Rhoddodd ddiolchiadau arbennig i Clive Menzies, cyn gadeirydd y fforwm am yr holl waith rhagorol a gyflawnwyd gyda'i gymorth yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

**14/09 Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd y 6 Chwefror 2009**

***15/08 Materion traws ffiniol***

Cytunodd Sue Gittins a Tim Stratton y byddent yn cynrychioli Wrecsam yn rhan o weithgor a fyddai'n rhoi sylw i faterion traws ffiniol yn unig.
Roedd yr Ysgrifennydd wedi derbyn ymatebion cadarnhaol gan Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Powys a Sir Gaer ac roedd wedi cysylltu ag ysgrifenyddion FfMLl eraill i drefnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod cyntaf. Dim ymateb hyd yma.

**GWEITHREDU: Byddai'r Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i Sue a Tim**

***09/09 Maes Parcio Melin y Brenin***

Roedd problem wedi ei hysbysu gyda thyllau yn wyneb y ffordd i mewn i'r maes parcio ym Melin y Brenin. Roedd yr Ysgrifennydd wedi derbyn cadarnhad fod y tyllau wedi eu trwsio erbyn hyn.

**15/09 Adroddiad yr Ysgrifennydd**

**Ymddeoliad**

Wedi tair blynedd a hanner yn y swydd, dywedodd yr ysgrifennydd wrth yr aelodau y byddai hi'n ymddeol ddiwedd mis Mehefin, oherwydd ymrwymiadau teulu, gwaith ac astudio. Diolchodd i'r aelodau am eu holl gefnogaeth a chymorth yn ystod ei chyfnod yn y swydd ac y byddai'r swydd wag wedi ei hysbysu cyn bo hir.

**GWEITHREDU: Byddai'r ysgrifennydd yn hysbysu'r aelodau o'r penodiad newydd pan fyddai'n gwybod**

**Ffurflenni Hawlio Treuliau Newydd**

Dywedodd yr ysgrifennydd wrth yr aelodau bod yr awdurdod wedi cynhyrchu ffurflenni treuliau gwirfoddolwyr newydd. Byddai'r rhain yn lle'r hen ffurflenni.
Os bydd aelodau yn dymuno hawlio unrhyw dreuliau teithio neu barcio ceir ar gyfer busnes FfMLl, dylent gysylltu ag ysgrifennydd y FfMLl.

**Cynrychiolydd Newydd y Cyngor ar y FfMLl.**

Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yw cynrychiolydd newydd y cyngor ar y fforwm, yn lle John Marchant.

**16/09 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Dywedodd Martin Howorth ei fod ar hyn o bryd yn edrych ar gyllido prosiectau mynediad ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn rhan o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'i fod o'r farn y gallai aelodau helpu i benderfynu pa gamau gweithredu yr oedd

angen eu blaenoriaethu mewn perthynas â phrosiectau llwybrau ceffylau, er mwyn i Wrecsam gyflwyno eu cais i'r cynulliad mewn pryd ar gyfer rhyddhau'r cyllid nesaf.
Roedd Martin o'r farn y gallai aelodau elwa ar gyflwyniad byr ynglŷn â'r Map Diffiniol gan Arweinydd y Tîm Hawliau Tramwy, Sean Hanratty, yn rhan o'r hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y fforwm.

Eglurodd bod Wrecsam wedi ymrwymo i weithio i wella'r rhwydwaith o hawliau tramwy ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, er ei fod o'r farn oherwydd cyfyngiadau ariannol a dirywiad cyson yn y cyllid, bod angen blaenoriaethu ble mae'r arian i'w wario yn y dyfodol agos.

Mynegwyd diddordeb gynt mewn llwybr ceffylau newydd ar gyfer marchogion. Un awgrym a gafwyd oedd yng nghyffiniau dyffryn Moss.
Roedd Janet Williams o'r farn mai pwysig yw sicrhau ystyriaeth i bob carfan o ddefnyddwyr wrth benderfynu lle i osod llwybr ceffylau newydd a gofynnodd a fyddai modd cynnwys mynediad ar gyfer gyrwyr cerbydau. Cadarnhaodd Martin ei fod yn fodlon mynd ar ôl a chadarnhau statws mynediad.

**GWEITHREDU A GYTUNWYD – y byddai aelodau yn cyflwyno unrhyw waith sydd i'w gwblhau yn y cyfarfod nesaf**

**NODYN: Bydd yr ysgrifennydd yn rhoi hyn ar yr agenda nesaf er mwyn ei drafod**

Estynnodd Natalie Edwards ei llongyfarchiadau i'r Tîm Hawliau Tramwy a'r Ceidwaid Mynediad am yr holl gefnogaeth yr oeddent wedi ei rhoi i'r tîm gwaith tir. Roedd yn hapus i roi gwybod fod y tîm wedi gweithredu'n brylon ac yn effeithlon ynglŷn ag unrhyw faterion a godwyd.

**17/09 Adroddiad y Ceidwaid Mynediad**

Cyflwynodd Martin Howorth adroddiad gan y ceidwaid Alison Whitley, Dave Smith a Sion Roberts ar waith a oedd yn digwydd ar hyn o bryd yn y Sir.

**Adroddiad Alison:**

- Mae'r holl waith sydd wedi ei gwblhau yng Ngwersyllt wedi ei archwilio yn ddiweddar ac mae Alison wrthi yn cofnodi dodrefn ar system CAMS. Dywedodd y bydd yn llunio rhaglen mynegbyst ar gyfer Gwersyllt yn ystod y pythefnos nesaf.
  Rhoddwyd datganiad i'r wasg yn ddiweddar gyda gwybodaeth am gynnydd y prosiect. Byd datganiad arall i'r wasg yn rhoi sylw i 'mabwysiadu llwybr' a fydd yn cynnwys pob un o'r tri phrosiect a fu, yn cynnwys Brymbo, Coedpoeth a Gwersyllt.

- Mae Alison wedi dechrau cydosod y mapiau arolwg ar gyfer ardal prosiect eleni, sef Broughton.

**Adroddiad Dave:**

- Mae wedi llunio rhestr gynhwysfawr o 95 o faterion cynnal a chadw ar lwybrau hyrwyddedig a hysbyswyd gan y tîm o wirfoddolwyr, ac mae'n

barod i roi gwaith i gontractwyr cyn gynted ag y bydd perchnogion tir wedi cael ymweliad. Mae wedi dechrau gwaith hefyd ar BVPI (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) eleni.

- Mae Dave yn dal i ddisgwyl gair gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ynglŷn â Grant Clawdd Offa eleni, ond mae'n weddol hyderus y bydd yn llwyddo. Mae hefyd yn arwain taith gerdded cyn bo hir – mae mwy o fanylion yn y llyfryn Gwybodaeth a Digwyddiadau a bydd yn y wasg leol hefyd.

**Adroddiad Siôn:**

- Mae'n gweithio ar hyn o bryd i gwblhau'r rhestr o waith sydd i'w wneud gyda'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn 2009/2010. Mae cryn nifer o lwybrau poblogaidd ar ymylon pentrefi a threfi wedi eu nodi'n rhai addas i'w gwella o gamfeydd i giatiau mochyn. Rhagwelir gosod pont droed newydd ger Fferm Caia yn y Rhos, a gosod pont droed newydd ar lwybr prysur Afon Dyfrdwy o Erbistog i gyfeiriad Lower Farm.

- Mae contractwyr i fod i ddechrau rhaglen strimio'r haf cyn bo hir.

**Adroddiad Charlotte:**

- Mae hi wedi bod yn helpu gyda rhaglen mynegbyst y flwyddyn hon ac mae'n gallu ein hysbysu bod pob un bron iawn wedi ei gwblhau heblaw baner neu ddwy sy'n dal gyda gwneuthurwyr yr arwyddion, a bod y llwyth olaf o arwyddion yn barod i'r contractwr eu gosod. Mae hi hefyd wedi bod yn helpu Dave Smith gyda BVPI eleni.

- Mae Charlotte hefyd wedi derbyn un arolwg 5 mlynedd wedi ei gwblhau i gyd a dau wedi'u cwblhau'n rhannol. Dim ond 7 cymuned sy'n weddill i'w harolygu erbyn hyn.

- Nawr, mae tudalen we'r Gwirfoddolwyr bron wedi ei chwblhau a'r cam nesaf fydd cyfarfod gyda thîm y we i drafod ei lansio.

**Mapiau Digidol ar gyfer Aelodau**

Hysbyswyd bod mapiau digidol o'u sir wedi eu darparu ar gyfer aelodau FfMLl Sir Y Fflint. Gofynnodd aelodau pa mor ymarferol fyddai i Wrecsam ddarparu mapiau digidol ar gyfer aelodau FfMLlW

**GWEITHREDU: Bydd Martin yn bwrw golwg ar gostau cynhyrchu**

**18/09 Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Cyflwynodd Alun Price ei hun i aelodau newydd y fforwm, gan roi disgrifiad byr o'i gefndir a'r gwaith yr oedd yn ei wneud gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd, gyda sylw i'w swyddogaethau a chyfrifoldebau presennol yn ei swydd a'r bartneriaeth gadarnhaol y mae wedi ei datblygu gyda Wrecsam. Eglurodd mai Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd yn rhoi rhan o gyllid y prosiectau llwybrau cerdded yn y sir a bod hyn yn llwyddiant mawr.

**Mynediad i Ddyfroedd Mewndirol Cymru**

Yn y cyfarfod diwethaf, hysbyswyd bod Cymdeithas Canŵa Cymru yn 2008 wedi cyflwyno deiseb gyda bron i 10,000 o lofnodion i'r Cynulliad yn galw am ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n sicrhau hawliau mynediad i ac ar hyd dyfroedd mewndirol. Dywedodd Alun fod y Pysgotwyr Gwialen yn casglu rhestr o lofnodion gyda deiseb debyg.

**19/09 Unrhyw Fusnes Arall**

**Adroddiad Blynyddol Drafft 2008/09**

Mae John Cooper-Poole wedi bod yn ddigon caredig i lunio drafft cyntaf Adroddiad Blynyddol FfMLlW 08/09. Diolchodd yr ysgrifennydd i John am ei waith caled wrth lunio'r adroddiad. Dosbarthwyd copïau a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ynghylch unrhyw newidiadau.

**GWEITHREDU: Adroddiad terfynol i'w gytuno yn y cyfarfod nesaf**

**Bronington – Camfa 36**

Yn un o gyfarfodydd blaenorol y fforwm yr oedd pryder wedi ei fynegi ynghylch hygyrchedd camfa ym mhentref Bronington y tybiwyd ei bod yn rhy uchel i'w dringo. Un ateb oedd codi giât mochyn yn ei lle. Adeg y cyfarfod nid oedd Martin yn siŵr o fesuriadau giatiau mochyn a pha mor ymarferol fyddai gosod un yn lle'r gamfa bresennol. Cadarnhaodd y byddai'n trafod mesuriadau gyda Siôn Roberts ac adrodd yn ôl i'r aelodau. **(gweler y troednodyn)**

**Sefydlu Aelodau Newydd**

Roedd Mary Roberts o'r farn y byddai sefydlu ar gyfer aelodau newydd y fforwm yn llesol.

**CYTUNWYD: Bydd Martin yn gwahodd ceidwaid mynediad i gyfarfod yn y dyfodol i roi cyflwyniad ynghylch eu swyddogaethau a'r gwaith sydd wedi ei wneud yn y sir yn rhan o'r broses sefydlu.**

**20/09 Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf**

Adroddiad Blynyddol
Materion Traws Ffiniol
Prosiectau ar gyfer y CGHT (awgrymiadau i'r ysgrifennydd cyn y cyfarfod)
Ceidwaid Mynediad

**21/09 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

**Dydd Iau, 6 Awst 2009 am1.30 pm, i'w gynnal yn Ystafell Gyfarfod Erddig, Ystâd Erddig, Wrecsam.**

---

**Troednodyn**

Wedi'r cyfarfod, cadarnhawyd bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn defnyddio Giatiau Mochyn gyda weiren ganol. Uchder y giatiau metel wedi eu gosod yw 1m - 1.2m gyda llinell ffens o 2m a lled o 1.2m